

Triniaeth lai ymwithiol ar gyfer gosod clun newydd

*Mae arweiniad
Techlechydd NICE
yn rhoi cyngor i'r
GIG ar pryd a sut y
gellir defnyddio
triniaethau
llawfeddygol
newydd mewn arfer
clinigol.*

Mae'r daflen hon yn ymwneud â phryd a sut y gellir defnyddio triniaeth lai ymwithiol ar gyfer gosod clun newydd yn y GIG i drin pobl â phoen difrifol yn y glun. Mae'n egluro'r canllawiau (cyngor) gan NICE (y Sefydliad Cenedlaethol dros Iechyd a Rhagoriaeth Glinigol).

Mae arweiniad Techlechydd yn gwneud argymhellion ar ddiogelwch triniaeth a pha mor dda y mae'n gweithio. Mae ymyriad yn brawf, triniaeth neu lawdriniaeth sy'n cynnwys torri neu wneud twll yn y croen, neu endosgop i edrych y tu mewn i'r corff, neu ffynonellau ynni fel pelydrau-X, gwres neu uwchsain. Nid yw'r canllawiau yn cynnwys p'un a ddylai'r GIG ariannu'r driniaeth ai peidio. Gwneir penderfyniadau ynglŷn ag arian gan gyrff lleol y GIG (ymddiriedolaethau gofal sylfaenol ac ymddiriedolaethau ysbyty) ar ôl ystyried pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio a ph'un a yw'n darparu gwerth am arian i'r GIG.

Ysgrifennwyd y daflen hon i helpu pobl y cynigiwyd y driniaeth hon iddynt fel y gallant benderfynu p'un a ddylent gytuno (cydsynio) iddi ai peidio. Nid yw'n disgrifio anabledd o ganlyniad i boen yn y glun na'r driniaeth yn fanwl - dylai aelod o'ch tîm gofal iechyd hefyd roi gwybodaeth lawn a chynghor i chi ar y rhain. Mae'r daflen yn cynnwys rhai cwestiynau y gallech fod am eu gofyn i'ch meddyg i'ch helpu i ddod i benderfyniad. Ceir rhai ffynonellau gwybodaeth a chymorth pellach ar dudalen 5.

Beth y mae NICE wedi'i ddweud?

Gellir cynnig y driniaeth hon yn rheolaidd fel opsiwn triniaeth i bobl sydd â phoen difrifol yn y glun, cyn belled â bod meddygon yn siŵr:

- bod y claf yn deall beth mae'n ei olygu a'i fod yn cytuno i gael y driniaeth, ac
- y caiff canlyniadau'r driniaeth eu monitro.

Dylai tîm o weithwyr gofal iechyd proffesiynol gynnig y driniaeth hon, gan gynnwys llawfeddyg sy'n gallu cynnig llawdriniaeth agored a llai ymwithiol i osod clun newydd. Dylai llawfeddygon sy'n cynnig y driniaeth fod wedi cael hyfforddiant arbennig mewn technegau llai ymwithiol.

Mae NICE yn gofyn i feddygon anfon gwybodaeth am bawb a gaiff y driniaeth a'r hyn sy'n digwydd iddynt wedyn i gronfa ddata yng Nghofrestrfa Genedlaethol y Cymalau (www.njrcentre.org.uk) er mwyn gallu archwilio diogelwch y driniaeth a/neu pa mor dda y mae'n gweithio dros gyfnod o amser.

Efallai nad dyma fydd yr unig driniaeth bosibl ar gyfer anabledd o ganlyniad i boen yn y glun. Dylai eich tîm gofal iechyd siarad â chi ynghylch p'un a yw'n addas i chi a pha opsiynau triniaeth eraill sydd ar gael.

Triniaeth lai ymwithiol ar gyfer gosod clun newydd

Ni chaiff y driniaeth ei disgrifio'n fanwl yma – siaradwch â'ch llawfeddyg i gael disgrifiad llawn.

Y rheswm mwyaf cyffredin dros fod angen gosod clun newydd yw osteoarthritis yng nghymal y glun. Mewn osteoarthritis, mae'r gorchudd sy'n diogelu pennau'r esgyrn mewn cymal yn treulio neu'n cael ei niweidio nes bod asgwrn yn rhwbio yn erbyn asgwrn yn y pen draw.

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 236

Cyn y bydd rhywun ag osteoarthritis yn cael cynnig gosod clun newydd, fel arfer byddant yn cael cynnig triniaethau nad ydynt yn cynnwys llawdriniaeth. Gall y rhain gynnwys poenladdwyr, meddyginiaethau gwrthlidiol a ffisiotherapi. Os na fydd y rhain yn helpu, gellir cynnig triniaeth gosod clun newydd i'r unigolyn.

Mae'r driniaeth safonol ar gyfer gosod clun newydd yn cynnwys gwneud toriad mawr (fel arfer rhwng 20 a 30 cm o hyd) dros y glun. Mae triniaeth lai ymwithiol i osod clun newydd yn y DU fel arfer yn cynnwys gwneud un toriad llai tua 10cm neu lai fel arfer. Fel arall, gwneir toriadau i flaen a chefn y glun. Cynhelir y driniaeth gan ddefnyddio offer llawfeddygol a gynlluniwyd yn arbennig, gyda'r claf o dan anesthetig cyffredinol neu epididwrol (anesthetig lleol a roddir drwy bigiad i mewn i asgwrn y cefn). Cymerir gofal i osgoi niweidio'r cyhyrau a'r tendonau o amgylch cymal y glun, er efallai y bydd angen rhannu rhai cyhyrau. Gallai'r llawfeddyg ddefnyddio arweiniad delwedd (er enghraifft, dull llywio gyda chyfrifiadur) i wella cywirdeb.

Mae ystod o wahanol gymalau artiffisial, y gellir eu smentio neu beidio, ar gael ar gyfer y driniaeth hon.

Beth mae hyn yn ei olygu i mi?

Mae NICE wedi dweud bod y driniaeth hon yn ddigon diogel a'i bod yn gweithio'n ddigon da i gael ei defnyddio yn y GIG. Os yw eich meddyg yn credu bod triniaeth lai ymwithiol ar gyfer gosod clun newydd yn driniaeth addas i chi, dylai sicrhau eich bod yn deall y manteision a'r risgiau o hyd cyn gofyn i chi gytuno i'r driniaeth.

Efallai y byddwch am ofyn y cwestiynau isod

- Beth yn union yw'r driniaeth hon?
- Beth yw'r manteision posibl?
- Beth yw'r tebygolrwydd y bydd y manteision hynny yn berthnasol i mi? A allai cael y driniaeth wneud i mi deimlo'n waeth?
- A oes triniaethau amgen?
- Beth yw risgiau'r driniaeth?
- A yw'r risgiau'n fach neu'n ddifrifol? □ Pa mor debygol ydyw y byddant yn digwydd?
- Pa ofal y bydd ei angen arnaf ar ôl y llawdriniaeth?
- Beth sy'n digwydd os aiff rhywbeth o'i le?
- Beth allai ddigwydd os na chaf y driniaeth?

Gallech ddewis cael y driniaeth hon, cael triniaeth wahanol, neu beidio â chael triniaeth o gwbl.

Crynodeb o fanteision a risgiau posibl

Ceir disgrifiad bras o rai o'r manteision a'r risgiau a welwyd yn yr astudiaethau a ystyriwyd gan NICE isod. Edrychodd NICE ar ddeg astudiaeth o'r driniaeth hon.

Pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio?

Gofynnodd astudiaeth o 759 o gleifion (1000 o gluniau) a gafodd y driniaeth i gleifion gwblhau holiadur yn gwerthuso symudiad y glun a'i gallu i weithredu ar raddfa o 0 i 100 pwynt (sgoriau uwch yn well). Dangosodd hwn welliant o 34 pwynt i 92 pwynt ar gyfartaledd pan edrychwyd arnynt ar ôl 37 mis. Mewn astudiaeth arall, cwblhawyd yr holiadur gan 597 o gleifion a gafodd y driniaeth a 608 o gleifion a gafodd y driniaeth safonol. Ni welwyd gwahaniaeth sylweddol yn y canlyniadau rhwng y ddwy driniaeth.

Mewn astudiaeth o 219 o gleifion, roedd 88 allan o 103 o gleifion (85%) a gafodd y driniaeth lai ymwithiol a 96 allan o 105 o gleifion (91%) a gafodd y driniaeth safonol yn gallu codi a symud ar ôl diwrnod.

Yn yr astudiaeth o 597 o gleifion a gafodd y driniaeth lai ymwithiol, treuliodd y cleifion lawer llai o amser yn yr ysbyty na'r 608 o gleifion a gafodd y driniaeth safonol.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr y dylid asesu pa mor dda y mae'r driniaeth yn gweithio drwy edrych ar allu hirdymor i weithredu, hyd yr arhosiad yn yr ysbyty, angen am boenladdwyr, a cholli gwaed.

Risgiau a phroblemau posibl

Roedd angen ail driniaeth ar 30 o gleifion mewn tair astudiaeth yn cynnwys cyfanswm o 1490 o gluniau. Yn yr astudiaeth o 597 o gleifion a gafodd y driniaeth lai ymwithiol a 608 o gleifion a gafodd y driniaeth safonol, nid oedd gwahaniaeth sylweddol yn nifer y cymhlethdodau. Yn yr astudiaeth o 759 o gleifion (1000 o gluniau), cafwyd clotiau gwaed yn y goes neu'r ysgyfaint mewn 12 o driniaethau (pan edrychwyd arnynt ar ôl 37 mis).

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 236

Nododd Cofrestrfa Genedlaethol Cymalau'r DU achosion o 'grac calchaid' (crac yn asgwrn y glun lle y gosodwyd y cymal artiffisial) mewn 95 allan o 19,041 o gleifion a gafodd y driniaeth lai ymwithiol ac mewn 1185 allan o 306,625 o gleifion a gafodd y driniaeth safonol. Cafodd deg claf a gafodd y driniaeth lai ymwithiol a 192 o gleifion a gafodd y driniaeth safonol doriad ym mhrif ran asgwrn y glun, a chafodd 29 o gleifion a gafodd y driniaeth lai ymwithiol a 622 o gleifion a gafodd y driniaeth safonol (llai nag 1% ohonynt) doriad i'r 'ardal drocancrol' (sy'n ffurfio rhan o ochr allanol asgwrn y glun).

Yn yr astudiaeth o 759 o gleifion (1000 o gluniau), gwelwyd asgwrn newydd yn ffurfio yn y feinwe feddal ar gyfartaledd 37 mis ar ôl y driniaeth mewn 198 o gluniau (nid oedd yr un ohonynt yn ddigon difrifol i fod angen triniaeth bellach). Nodwyd yr asgwrn yn soced y glun yn dadelfennu mewn wyth allan o 70 o gluniau a archwiliwyd â phelydr-X yn yr astudiaeth o 70 o gleifion (90 o gluniau) pan edrychwyd arnynt ar ôl 11 o flynyddoedd ar gyfartaledd.

Yn ogystal ag edrych ar yr astudiaethau hyn, gofynnodd NICE am farn cynghorwyr arbenigol hefyd. Mae'r cynghorwyr hyn yn arbenigwyr clinigol yn y maes hwn o feddyginiaeth. Dywedodd y cynghorwyr fod risgiau sy'n gysylltiedig â mewnbaniadau a osodir yn y safle anghywir yn cynnwys toriad i asgwrn y glun a datgymalu'r glun. Nodwyd niwed i nerfau ac i bibellau gwaed fel cymhlethdod posibl oherwydd bod y llawfeddyg yn methu gweld llawer yn ystod y driniaeth.

Rhagor o wybodaeth am boen clun

Gall NHS Choices (www.nhsdirect.wales.nhs.uk) fod yn fan da i gael gwybod mwy. Efallai y gall eich gwasanaeth cyngor a chysylltiadau cleifion (a elwir yn PALS fel arfer) lleol roi gwybodaeth a chymorth pellach i chi. I gael manylion holl ganllawiau NICE ar boen clun, ewch i'n gwefan yn www.nice.org.uk

Gwybodaeth am arweiniad Techlechyd NICE 236

NICE

Mae NICE yn llunio canllawiau (cyngor) i'r GIG ynglŷn ag atal, canfod a thrin gwahanol gyflyrau meddygol. Ysgrifennir y canllawiau gan arbenigwyr annibynnol gan gynnwys gweithwyr gofal iechyd proffesiynol a phobl sy'n cynrychioli cleifion a gofalwyr. Maent yn ystyried pa mor dda y mae ymyriad yn gweithio a pha mor ddiogel ydyw, ac yn gofyn barn cynghorwyr arbenigol. Mae'r arweiniad Techlechydd yn berthnasol i'r GIG cyfan yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Disgwylir i staff sy'n gweithio yn y GIG ddilyn y canllawiau hyn.

I gael rhagor o wybodaeth am NICE, ei waith a sut mae'n gwneud penderfyniadau, ewch i www.nice.org.uk/aboutguidance

Mae'r daflen hon yn ymwneud â 'thriniaeth lai ymwithiol ar gyfer gosod clun newydd'. Mae'r daflen hon a'r canllawiau llawn a anelir at weithwyr gofal iechyd proffesiynol ar gael yn www.nice.org.uk/guidance/HTG236

Rydym yn annog sefydliadau gwirfoddol, sefydliadau'r GIG a chlinigwyr i ddefnyddio testun o'r llyfryn hwn yn eu gwybodaeth eu hunain am y driniaeth hon.

National Institute for Health and Clinical Excellence

MidCity Place, 71 High Holborn, London, WC1V 6NA; www.nice.org.uk

ISBN 978-1-4731-8245-5

N2371 1P October 10

© National Institute for Health and Clinical Excellence, 2010. All rights reserved. This material may be freely reproduced for educational and not-for-profit purposes. No reproduction by or for commercial organisations, or for

Gwybodaeth am arweiniad Techlechydd NICE 236

commercial purposes, is allowed without the express written permission of NICE.